

Disgrifiad swydd

Teitl y swydd	Prentis Gwyddor Data L6
Yn atebol i	Tîm Dadansoddi Data
Lleoliad	Caerdydd
Yn adroddiad yn uniongyrchol	Amh
Band cyflog	Prentis Gwyddor Data
Cliriad Lefel Diogelwch	Cliriad Gwrthderfysgaeth

Pwrpas y Swydd

Gan weithio o fewn tîm bach sy'n cynnwys staff o bob rhan o'r sefydliad, bydd deiliad y swydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen dadansoddi data o fewn Archwilio Cymru.

Bydd deiliad y swydd yn hyfforddi i gyflawni Prentisiaeth Gwyddor Data Lefel 6.

Prif Ddyletswyddau

Byddwch yn gweithio wrth wraidd Gwyddor Data yn Archwilio Cymru ac yn ymuno â'r tîm profiadol o Wyddonwyr Data ar draws ein sefydliad.

Byddwch yn cwblhau hyfforddiant yn y swydd ac oddi ar y swydd. Astudio tuag at BSc mewn Gwyddor Data fel rhan o brentisiaeth Lefel 6.

Tyfu galluedd eu hunain i gefnogi'r tîm a dod ag ymagwedd arloesol ac angerddol at wyddor data.

Deall y problemau busnes cyfredol a dangos yn rhagweithiol sut y gellir datrys y rhain gan ddefnyddio atebion credadwy a arweinir gan ddata.

Meysydd Prif Ganlyniadau

Technegol

Dewis a datblygu technegau newydd i ddatrys problemau cymhleth cysylltiedig.

Cymhwyso'r technegau hyn a dysgu sut i'w arddangos i randdeiliaid.

Datblygu mewnwelediadau newydd o ddata gan ddefnyddio technegau gwyddor data.

Deall y problemau busnes cyfredol a dangos yn rhagweithiol sut y gellir datrys y rhain gan ddefnyddio atebion credadwy a arweinir gan ddata.

Gweithio mewn amgylchedd prosiect, gan ddefnyddio technegau ystwyth.

Cyfathrebu

Yn gallu gweithio fel rhan o dîm sefydledig, gan gynnig sgiliau cyfathrebu rhagorol i gydweithwyr a rhanddeiliaid allweddol.

Cyfrifoldeb Arweinyddiaeth

Amh

Allbynnau a Chyflawniadau Rôl

Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen dadansoddi data o fewn Archwilio Cymru.

Gweithio tuag at gyflawni BSc cydnabyddedig mewn Gwyddor Data fel rhan o brentisiaeth Lefel 6.

Cefnogi cyflwyno gweithgareddau dadansoddeg data i amser, cyllideb ac ansawdd.

Ymgymryd â gwaith datblygu a thasgau arwahanol fel rhan o brosiectau cwmpasu ac asesu eu dichonoldeb.

Gwneud Penderfyniadau

Cymhwyso barn wrth ddewis a chymhwyso technegau dadansoddol o dan arweiniad.

Cyfrannu syniadau a dulliau arloesol at atebion gwyddor data o fewn prosiectau diffiniedig trwy gefnogaeth cydweithwyr a'r Rheolwr Llinell.

Sgiliau Digidol

Datblygu gallu gwyddor data trwy-y-swydd ac i ffwrdd-y-hyfforddiant swydd.

Cymhwyso rhaglennu, dadansoddol a data-trin technegau a ddysgwyd yn ystod y brentisiaeth i mewn i waith trwy allbynnau dan oruchwyliaeth.

Deallusrwydd Emosiynol

Bod yn esiampl ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiadau Archwilio Cymru.

Gwybodaeth Ychwanegol

I fod yn gymwys ar gyfer y brentisiaeth hon rhaid i chi allu tystio:

- Mae gennych hawl i fyw a gweithio yn y DU;
- Rydych chi'n preswyllo yng Nghymru neu mae eich cyflogwr wedi'i leoli'n barhaol yng Nghymru.
- Rydych chi wedi gadael yr ysgol yn gyfreithlon.
- Rydych chi'n bwriadu aros mewn cyflogaeth am y 12 mis nesaf.
- Nid ydych eisoes wedi cael eich ariannu ar gyfer cyrsiau hyfforddi eraill gan Lywodraeth Cymru.
- Rydych chi'n cael eich talu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol perthnasol.
- Rydych chi'n gweithio mwy na 16 awr yr wythnos.

Gofynion Craidd Cyffredinol

Ein Gwerthoedd a'n hymddygiadau

Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau'n diffinio'r ffordd yr ydym yn gweithio a'r modd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd ein nodau. Mae ein pobl ni i gyd yn ymrwymedig i arddangos ein gwerthoedd a'n hymddygiadau, fel y gallwn weithio'n effeithiol gyda'n gilydd a gwneud penderfyniadau da. Maent yn gymorth inni fod y gorau y gallwn fod ac yn sicrhau bod gennym y sgiliau a'r profiadau cywir yn y lle cywir. Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiadau wedi eu cynllunio gan y staff i fod o gymorth i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu a datblygu diwylliant o hyfforddi er mwyn sicrhau amodau i ffynnu er budd llwyddiant y sefydliad. Mae'n ofynnol i bob gweithiwr gyfrannu'n llawn at feithrin diwylliant cadarnhaol a helpu i ni dyfu trwy fyw ein gwerthoedd a'n hymddygiad.

Cyfrinachedd a Diogelwch Gwybodaeth

Rhaid i ddeiliad y swydd fod yn ymwybodol bob amser o bwysigrwydd cadw cyfrinachedd a diogelwch y wybodaeth y mae'n ei chasglu wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn cynnwys mynediad at wybodaeth bersonol. Rhaid i ddeiliad y swydd drin yr holl wybodaeth, boed yn gorfforaethol neu'n ymwneud â chleientiaid, mewn modd disylw a chyfrinachol yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018, GDPR y DU a pholisi sefydliadol. Ystyrir torri cyfrinachedd o'r fath yn drosedd ddifrifol fydd yn arwain at ddisgyblu, sy'n agored i ddiswyddo a/neu erlyniad o dan y ddeddfwriaeth statudol gyfredol (Deddf Diogelu Data) a Pholisi Disgyblu Archwilio Cymru.

Cydraddoldeb

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn gosod dyletswydd gadarnhaol ar gyrff cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â nodweddion gwarchodedig, fel cyflogwr ac fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus. Mae naw nodwedd warchodedig: oedran; anabledd; newid rhyw; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Archwilio Cymru wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw ymgeisydd swydd neu gyflogai yn cael triniaeth lai ffafriol ar unrhyw un o'r seiliau uchod. I'r diben hwn, mae gan y sefydliad Bolisi Cydraddoldeb ac mae cyfrifoldeb ar bob gweithiwr i gyfrannu at ei lwyddiant.

Iechyd a Diogelwch

Mae gan holl weithwyr y sefydliad ddyletswydd gofal statudol am eu diogelwch personol eu hunain a diogelwch personol pobl eraill y gallai eu gweithredoedd neu eu hepgoriadau effeithio arnynt. Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd gydweithredu â'r rheolwyr i alluogi'r sefydliad i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ei hun a rhoi gwybod am unrhyw sefyllfaoedd peryglus neu offer diffygiol. Rhaid i ddeiliad y swydd gadw at bolisiâu Rheoli Risg y sefydliad, Iechyd a Diogelwch a pholisiâu cysylltiedig.

Gwiriadau Diogelwch

Mae pob cyflogai yn destun gwiriadau diogelwch sylfaenol fel rhan o'u gwiriad cyn cyflogi. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys prawf hunaniaeth a chymwysterau. At hynny, mae'r holl staff mewn rolau cymwys yn destun trefniadau fetio diogelwch hyd at lefel diogelwch CTC (gwiriad gwrthderfysgaeth).

Urddas yn y Gwaith

Mae'r sefydliad yn condemnio pob math o fwlio ac aflonyddu ac mae'n ymroi i hyrwyddo gweithle lle mae gweithwyr yn cael eu trin yn deg a chydag urddas a pharch yn ddiduedd. Gofynnir i bob aelod o staff adrodd am unrhyw fath o fwlio ac aflonyddu wrth ei Reolwr Llinell neu wrth un o Gyfarwyddwyr y sefydliad. Ni oddefir unrhyw ymddygiad amhriodol y tu mewn i'r gweithle a chaiff ei drin fel mater difrifol o dan bolisi Urddas yn y Gwaith Archwilio Cymru.

Y Gymraeg

Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y Gymraeg yn ein gwaith ac yn anelu at ddarparu gwasanaeth dwyieithog i bawb sydd am ei ddefnyddio. Hoffem felly annog yn arbennig geisiadau gan unigolion sydd â sgiliau iaith Gymraeg i'n helpu i gyrraedd y nod hon.

Bydd pob disgrifiad swydd yn nodi a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad hanfodol neu ddymunol. Os byddwch yn llwyddiannus ac nad oes gennych sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd, gallwn eich cynorthwyo i ddysgu Cymraeg os byddwch yn dymuno i fod yn

Manylion Person		
Gofyniad	Hanfodol neu Ddymunol	Dull Asesu Cais / Cyfweliad
1. Cymwysterau		
1.1 Tair Lefel A ar radd B neu'n uwch (neu gymwysterau cyfatebol), gan gynnwys o leiaf un pwnc STEM.	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
2. Technegol		
2.1 Dadansoddol a phroblem dda-sgiliau datrys.	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
2.2 Rhywfaint o allu rhaglennu/codio (R, Python, neu iaith raglennu berthnasol arall).	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
3. Cyfathrebu		
3.1 Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig da, yn glir ac yn gryno gyda sylw cryf i fanylion.	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
3.2 Sgiliau cwestiynu a gwranddo cadarn.	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
3.3 Yn gweithio'n effeithiol, yn frwdfrydig ac yn ymgysylltiedig fel aelod o dîm.	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
3.4 Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol a phroffesiynol.	Dymunol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
4. Cyfrifoldeb Arweinyddiaeth		
AMH		
5. Allbynnau a Chyflawniadau Rôl		
5.1 Y gallu i weld tasgau drwodd i ben yn llwyddiannus.	Dymunol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
6. Gwneud Penderfyniadau		
6.1 Yn gallu gweithredu ar fenter eich hun ond yn gwybod pryd i geisio goruchwyliaeth ac arweiniad gan gydweithwyr.	Dymunol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
7. Sgiliau Digidol a Data		
7.1 Sgiliau TG da, gyda'r gallu i ddysgu sgiliau TG newydd yn ôl yr angen.	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
8. Deallusrwydd Emosiynol		

8.1 -Ymagwedd weithredol at weithio gyda pharodrwydd i ddysgu.	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
8.2 Sgiliau rhyngpersonol da – yn gallu datblygu a gweithio'n effeithiol gydag eraill ar bob lefel	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
8.3 Brwdfrydig a chymhellant uchel.	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
8.4 Hyblyg a'r parodrwydd i ymaddasu i flaenoriaethau/heriau sy'n newid.	Dymunol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
9. Cyffredinol		
9.1 Hunanymwybodol ac yn fodel rôl ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiadau Archwilio Cymru.	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
9.2 Y gallu i weithio'n hyblyg ac, os oes angen, y tu allan i oriau swyddfa arferol.	Dymunol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
9.3 Ymwybyddiaeth o ran ac ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*
9.4 Ymwybyddiaeth ac ymrwymiad i drefniadau iechyd a diogelwch.	Hanfodol	Ffurflen Gais / Cyfweliad / Canolfan Asesiad*

*Cyfeiriwch at hysbyseb am fanylion ychwanegol yn yr ymgyrch recriwtio.

Sgiliau yn y Gymraeg		
Maes sgil	Hanfodol	Dymunol
Siarad a Gwrandao	Cyfarch eraill dros y ffôn neu wyneb yn wyneb gyda chyfarchiad Cymraeg syml ac anfon galwad ymlaen yn sensitif at siaradwr Cymraeg pan fo'n briodol.	Mynychu cyfarfodydd a thrafodaethau cyfrwng Cymraeg a chyfrannu'n hyderus yn Gymraeg
Darllen	Defnyddio meddalwedd cyfieithu i gael crap ar gynnwys gohebiaeth syml gan ddeall mai cyfyngedig yw gallu'r feddalwedd hon.	Deall adroddiadau, gohebiaeth ac ymatebion i'r arolwg a chymryd negeseuon allweddol
Ysgrifennu	Diweddarau dogfennau a gohebiaeth gyda dyddiadau Cymraeg a thermau cyffredinol eraill.	Ysgrifennu adroddiadau a gohebiaeth gymhleth yn Gymraeg gyda chymorth sillafu a gwirio gramadeg Cymraeg